Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Ystod oedran 0 hyd at 25

Bydd un system ddeddfwriaethol yn ymwneud â’r cymorth a roddir i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac sy’n derbyn addysg a/neu hyfforddiant.

## Y Gymraeg

Os bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy’r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, rhaid cofnodi hynny yn y CDU a rhaid cymryd ‘pob cam rhesymol’ i sicrhau’r ddarpariaeth yn Gymraeg.

## Cod ADY gorfodol

Bydd y Cod ADY yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol y mae’n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy’n gyfrifol am gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY weithredu o’u mewn.

## Hawliau clir a chyson i apelio

Bydd gan bob plentyn, ei rieni/gofalwyr a phobl ifanc hyd at 25 yr hawl i apelio i’r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach mewn perthynas ag ADY neu CDU.

Rhaid cynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc.




## Cynllun unedig

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli’r gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol neu’n iau, yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion neu addysg bellach.

Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a pharhad, a bod darpariaeth a hawliau’n cael eu diogelu, pa bynnag mor ddifrifol neu gymhleth

## Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Bydd plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn cael cymorth i ddeall a chymryd rhan yn y penderfyniadau a gymerir sy’n effeithio arnynt. Dylid hefyd rhoi sicrwydd priodol iddynt, a chynnig cyfleoedd iddynt godi unrhyw bryderon a sicrhau bod eu cwestiynau’n cael eu hateb.

## Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau’n gynharach

Os nad yw plentyn, ei rieni/gofalwyr neu berson ifanc yn hapus â phenderfyniadau a wnaed gan ysgol ynghylch ADY neu CDU, gallant wneud cais i’r awdurdod lleol er mwyn iddynt gael eu hadolygu neu eu hailystyried.

## Mwy o gydweithredu

Lle bo angen, bydd CDUau yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill, yn ogystal ag addysg. Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu sy’n nodi’n glir pa asiantaeth sy’n gyfrifol am gyflenwi’r elfennau unigol.

OGL © Hawlfaint y Goron 2018 WG34035